LC101

# CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU
# THE NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES

**LEGISLATION COMMITTEE REPORT**

**Y PWYLLGOR DEDDFAU ADRODDIAD**

**Gorchymyn Pysgota Môr (Gorfodi Mesurau Rheoli Cymunedol) (Cymru) 2000**

**Y Cefndir**

Yn ôl polisi'r Gymuned Ewropeaidd, mae llwyddiant ei pholisi pysgodfeydd cyffredin yn golygu bod cyfundrefn reoli effeithiol yn cael ei gweithredu ar gyfer pob agwedd ar y polisi. I gyrraedd y nod hwnnw, bernir bod angen cynnwys rheolau ar gyfer monitro mesurau cadwraeth a mesurau rheoli adnoddau, mesurau strwythurol a mesurau ar gyfer trefnu'r farchnad yn gyffredinol.

Sefydlwyd y gyfundrefn reoli hon gan Reoliad y Cyngor (EEC) Rhif 2847/93, fel y'i diwygiwyd wedyn gan Reoliad y Cyngor (EEC) Rhif 2846/98.

Yn wreiddiol, yr oedd y gyfundrefn reoli'n cael ei gorfodi (yn y gyfraith ddomestig) drwy gyfrwng Gorchymyn Pysgota Môr (Gorfodi Mesurau Rheoli Cymunedol) 1994 a Gorchymyn Pysgota Môr (Gorfodi Mesurau Rheoli Cymunedol) (Diwygio) 1996.

Mae'r Gorchymyn newydd hwn yn diddymu Gorchymyn 1994 a Gorchymyn 1996 a'u hailddeddfu, gan gyflwyno darpariaethau (gorfodi) newydd i gymryd Rheoliad y Cyngor (EEC) Rhif 2846/98 i ystyriaeth.

Ceir Gorchmynion tebyg ar gyfer yr Alban a Lloegr a chan mai at faterion pysgota y mae'r Gorchymyn hwn yn cyfeirio, ceir cyfeiriad at y diffiniad o "Wales" yn adran 155(1) a (2) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 sy'n cynnwys "the sea adjacent to Wales out as far as the seaward boundary of the territorial sea", sef pellter o 12 milltir o arfordir Cymru mewn gwirionedd.

**Rheol Sefydlog 11.5**

Cafodd cynghorwyr cyfreithiol y Pwyllgor gyfle i gyflwyno sylwadau ar y Gorchymyn yn y dyddiau cynnar, ac felly cafodd nifer o gywiriadau eu gwneud.

Er hyn, oherwydd gwallau yn y weithdrefn wedyn, daeth y Pwyllgor i'r casgliad bod rhaid tynnu sylw arbennig y Cynulliad at y Gorchymyn o dan Reol Sefydlog 11.5 ar sail methiant i fodloni gofynion statudol neu ofynion cyfreithiol eraill (RhS 11.5(iv)).

Dyma'r pwyntiau –

Gwnaethpwyd y Gorchymyn drwy ddefnyddio'r Drefn Frys ar 29 Mawrth 2000 a daeth i rym ar 1 Ebrill 2000 ond ni chyfeiriwyd mohono yn ffurfiol at y Pwyllgor Deddfau nes 26 Ebrill. Gan ei bod yn ofynnol o dan Reol Sefydlog 22.26 i orchmynion gael eu cyflwyno i'r Pwyllgor "cyn gynted ag y bo modd" ar ôl cael eu gwneud mae Rheoliadau Sefydlog y Cynulliad wedi'u torri.

Pan oedd y Pwyllgor Deddfau yn ei ystyried, nid oedd y Gorchymyn wedi'i gyhoeddi naill ai ar wefan y Cynulliad nac ar wefan Gwasg Ei Mawrhydi nac ar ffurf brintiedig. Yn ychwanegol, deellid nad oedd y Gorchymyn wedi'i gofrestru gan y Llyfrfa ac felly nid oedd rhif OS wedi'i ddyrannu iddo. Ni chredid felly fod y gofyniad statudol ynghylch rhifo a chyhoeddi (o dan adran 2(1) o Ddeddf Offerynnau Statudol 1946), wedi'i fodloni.

Yn unol â RhS 11.4, rhoddwyd gwybod am y pwyntiau hyn i'r Ysgrifennydd Cynulliad mewn llythyr dyddiedig 7 Mehefin 2000.

Atebodd yr Ysgrifennydd Cynulliad mewn llythyr dyddiedig 28 Gorffennaf, sef llythyr sy'n disgrifio ac yn nodi – yn fuddiol iawn – drefn y digwyddiadau ynglyn â phrosesu'r Gorchymyn.

Mae'r Ysgrifennydd Cynulliad yn cydnabod bod oedi yn y weithdrefn wedi bod mewn perthynas â chyflwyno'r Gorchymyn i'r Pwyllgor Deddfau ac wedyn mewn perthynas â'i gyhoeddi. Nodir bod anawsterau argraffu allanol wedi cyfrannu at yr oedi wrth ei gyhoeddi. Nodir hefyd fod mesurau yn cael eu cymryd i wella'r gweithdrefnau mewnol ac allanol.

Gan fod y Gorchymyn wedi'i wneud ar 29 Mawrth ac wedi'i gyflwyno i'r gofrestru ar 5 Ebrill, derbynnir mai ychydig yn unig o oedi a gafwyd yn y fan hon. Ond, o gofio'r oedi cyn cyflwyno'r Gorchymyn i'r Pwyllgor Deddfau a'i gyhoeddi, daethpwyd i'r casgliad bod angen i'r Pwyllgor wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r Gorchymyn ar y sail a bennir yn RhS 11.5(v) am fod y digwyddiadau hyn yn gyfystyr â methiant i fodloni gofynion statudol neu ofynion cyfreithiol eraill.

Dai Lloyd AM
**Cadeirydd Dros Dro y Pwyllgor Deddfau**

**17 Hydref 2000**